


# Gwneud Cais Ar-lein ar gyfer Lle yn yr Ysgol Feithrin

**O 2 Ionawr 2019** byddwch yn gallu gwneud cais am le i'ch plentyn yn yr ysgol feithrin ar-lein yn defnyddio'r...



Y cyfan fydd ei angen arnoch yw eich cyfeiriad e-bost er mwyn gwneud cais ar-lein o'ch cyfrifiadur gartref, tabled neu ffôn symudol.

Drwy gyflwyno'ch cerdyn llyfrgell, cewch hefyd ddefnyddio'r cyfleusterau yn Galw Wreccsam ac yn Llyfrgell Wreccsam i gyflwyno'ch cais ar-lein.

Awgrymiadau ar gyfer cwblhau eich cais ar-lein

- Wrth nodi enwau, defnyddiwch briflythrennau ar gyfer llythrennau cyntaf yr enwau, er enghraifft: **Mr Joe Bloggs, Rose Jarvis, Ben Jones**
- Wrth nodi cod post, defnyddiwch briflythrennau, er enghraifft: **LL12 6LD (gan adael gofod ar ôl y 4 digid cyntaf).**
- Wrth nodi cyfeiriad yr ymgeisydd (cyfeiriad y rhiant) dewiswch y cyfeiriad llawn yn hytrach na dim ond cod post.
- Ar ôl i chi gofrestru, bydd angen i chi wneud nodyn o'ch cyfrinair a ddewiswyd gan y byddwch yn derbyn e-bost gyda dolen i'w dilyn i gael mynediad at eich cais ac i'w gwblhau.

- Lluniwch ddrafft o'ch rhesymau pam eich bod yn dewis ysgolion penodol, cyn mynd ar-lein, mae hyn yn arbed amser wrth wneud eich cais ac yn lleihau'r risg o gael eich datgysylltu gan y system.
- Pan fo modd defnyddiwch y dewislenni i ddewis gosodiadau hawl i addysg gynnar gyfredol ac yr ysgolion a ddewiswyd.
- Os fyddai gan eich plentyn frawd neu chwaer yn mynychu'r ysgol o'ch dewis chi, ac yn yr ysgol ym mis Medi 2019, cofiwch ychwanegu'r wybodaeth hyn pan ofynnir amdano.
- Cofiwch ddewis sut yr ydych yn dymuno derbyn cadarnhad o'ch cais, er enghraifft drwy e-bost neu lythyr.
- Gallwch ddewis nifer o ysgolion, ond sicrhewch eu bod mewn trefn gyda'r dewis cyntaf yn gyntaf, eich ail ddewis yn ail ac yn y blaen, gallwch ddefnyddio'r saethau i fyny ac i lawr i symud eich dewisiadau.

Os ydych yn ailgyflwyno eich cais, am unrhyw reswm, bydd y system yn gosod eich cais fel 'heb ei gyflwyno' yn awtomatig. Felly bydd yn rhaid i chi fynd i dudalen olaf eich cais, rhoi tic ym mlwch amodau a thelerau a chlicio botwm 'SUBMIT' unwaith eto hyd yn oed os nad ydych wedi newid unrhyw beth.

**Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar [www.wrecsam.gov.uk](http://www.wrecsam.gov.uk) a dilynwch y ddolen i dderbyniadau ysgol neu ffoniwch 01978 298991.**

## **Y DYDDIAD CAU AR GYFER CEISIADAU YW DYDD 22 CHWFROR 2019**

**Sylwer: Ymdrinnir â cheisiadau hwyr ar  
ôl y rhai sydd wedi dod i law ar amser.**

Mae'r prosiect hwn yn cydymffurfio â Strategaeth Werdd y Cyngor.